Swyddfa'r
Gwarcheidwad
Cyhoeddus

# InTouch

Y cylchlythyr i ddirprwyon

Hydref 2016

## Yn y rhifyn hwn o InTouch...

Taliadau gofal teulu

Yr adroddiad blynyddol yn mynd yn ddigidol

Canlyniadau arolwg darllenwyr InTouch

...a llawer mwy



# Taliadau gofal teulu

Ym mis Mai eleni cyhoeddasom ganllawiau ar daliadau gofal teulu, a elwir hefyd yn daliadau gofal am ddim. Mae'r canllawiau'n berthnasol i ddirprwyon lleyg a phroffesiynol wedi'u penodi gan lys sydd â gorchymyn cyllid ac eiddo.

Mae taliadau gofal teulu yn daliadau a wneir i aelod o'r teulu neu ffrind sy'n darparu gofal i'r cleient heb drefniant contract, er enghraifft oriau cytunedig neu wyliau blynyddol. Gallai hyn fod yn ofal rheolaidd amser llawn neu'n gymorth achlysurol, fel coginio prydau bwyd neu fynd â rhywun i apwyntiadau.

Mae llawer o berthnasau'n darparu gofal heb ddisgwyl tâl, ond weithiau gall tâl ategu gofal proffesiynol, lleddfu sefyllfa ariannol y gofalwr ei hun a chaniatáu iddo ddal ati i ofalu. Cyn belled eich bod yn dilyn y canllawiau, bydd y Gwarchodwr Cyhoeddus yn ystyried bod y math hwn o drefniant er budd pennaf y cleient.

## Y canllawiau

Dywedodd rhai o'n dirprwyon nad oeddent yn siŵr pa bryd y gellid gwneud taliad a faint ddylai'r taliad fod. Bwriad y canllawiau, sydd ar ffurf nodyn ymarfer, yw gwneud hyn yn gliriach.

Gallwch weld y broses i'w dilyn wrth wneud taliad fel hwn yn adran fframwaith cyfreithiol y nodyn.

Rhaid i chi ystyried dau beth:

1. A yw'r taliad a gynigir er budd pennaf y cleient.
2. A yw'r penderfyniad i wneud taliad yn gwrthdaro â'ch dyletswydd i beidio â manteisio ar eich rôl fel dirprwy.

Dylech hefyd edrych ar y rhestr gyfeirio yn adran 4 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Mae'r nodyn hwn hefyd yn egluro sut i gyfrifo swm ac amlder taliadau.

## Y Llys Gwarchod

Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen i chi ofyn i'r Llys Gwarchod gymeradwyo taliadau, er enghraifft, os ydych yn gwneud taliad i chi eich hun neu os na ellir cytuno ynglŷn â'r swm sydd i'w dalu. Os yw'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn credu eich bod wedi mynd y tu hwnt i'ch awdurdod i wneud taliad, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud cais i'r Llys Gwarchod.

Edrychwch ar yr achosion enghreifftiol yn y nodyn ymarfer sy'n dangos sut y mae'r Llys Gwarchod yn ymdrin â thaliadau gofal teulu. Mae pob achos yn wahanol iawn, ac yn dibynnu ar amgylchiadau personol y cleient.

## Yn olaf

Wrth wneud taliadau gofal teulu cadwch gofnodion gofalus ac adolygwch symiau'r taliadau'n rheolaidd.

Rhaid i chi ystyried sefyllfa gyffredinol y teulu a beth mae'r aelod o'r teulu neu'r gofalwr yn ei wneud. Cofiwch – ni fwriadwyd i'r taliadau hyn wneud yn lle cyflog, hyd yn oed os yw'r gofalwr wedi rhoi'r gorau i swydd â chyflog da.

Os ydych yn ystyried gwneud taliad gofal teulu ewch i **gov.uk/opg** i ddarllen y nodyn ymarfer yn llawn.



# Dirprwy iechyd a lles
## sut a phryd i ddefnyddio eich gorchymyn

I'r rhan fwyaf o bobl bydd bod yn ddirprwy wedi'i benodi gan lys yn brofiad newydd a brawychus, a dweud y lleiaf.

Gall gwneud penderfyniad ar ran rhywun rydych yn ei garu fod yn anodd, yn enwedig wrth ystyried triniaeth feddygol neu benderfynu ble dylai rhywun fyw.

Gwyddom pa mor bwysig yw eich rôl fel dirprwy iechyd a lles, a pha mor anodd yw hi i ddefnyddio eich gorchymyn mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Rydym yma i'ch helpu a'ch cefnogi ar eich taith fel dirprwy a sicrhau eich bod yn gwneud penderfyniadau er budd pennaf eich cleient.

Fel y rhan fwyaf o ddirprwyon newydd, mae'n debyg y byddwch yn teimlo bod gennych fwy o gwestiynau nag o atebion ar ôl i chi dderbyn y gorchymyn newydd – 'wrth bwy ddylwn i ddweud?', 'sut mae defnyddio'r gorchymyn?' a 'ble gallaf i gael help?'

Yn gynharach eleni, cyflwynasom daflen ar gyfer dirprwyon iechyd a lles, dan y teitl Sut i fod yn ddirprwy (SD4).

Mae'r daflen Sut i fod yn ddirprwy yn ymdrin â materion sy'n peri pryder i ddirprwyon iechyd a lles newydd a'r rhai sydd wedi'u penodi'n barod – wrth dderbyn gorchymyn, ac wrth ofalu o ddydd i ddydd.




Mae'r daflen yn cynnwys diagram defnyddiol sy'n dangos y saith blaenoriaeth gyntaf ar ôl i chi ddod yn ddirprwy:

1. Dod i adnabod eich cleient (os oes angen)
2. Gwirio eich gorchymyn
3. Rhoi gwybod i bobl eich bod yn ddirprwy
4. Cyfrannu tuag at gynllun gofal y cleient
5. Cadw cofnod o'ch penderfyniadau iechyd a lles
6. Talu unrhyw ffioedd dirprwy
7. Ysgrifennu adroddiad dirprwy

Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys enghreifftiau ymarferol sy'n dangos sut i ddefnyddio eich gorchymyn a beth yw cyfyngiadau gorchymyn iechyd a lles.

Er enghraifft, fel dirprwy gallwch drafod cynllun gofal eich cleient gyda gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol y cleient, a gofyn iddo gynnwys eich sylwadau yn y cynllun gofal. Er hyn, nid oes gennych awdurdod i newid y cynllun gofal.

Os oes gennych unrhyw bryder ynglŷn â'r cynllun gofal, siaradwch â'r gweithiwr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol. Gwnewch yn siŵr bod eich gofynion yn rhesymol a rhowch amser i'r staff ymateb.

Yn olaf, mae'r canllawiau'n nodi beth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni pan fyddwn yn eich goruchwylio ac yn eich cefnogi yn eich rôl fel dirprwy.

I gael copi o Sut i fod yn ddirprwy, ewch i **gov.uk/opg**

# Atgoffa am yr adroddiad blynyddol

## Ym mis Medi 2015, gofynnwyd i bob dirprwy newydd, a'r dirprwyon presennol, gyflwyno adroddiad blynyddol bob blwyddyn.

Cyn hyn, dim ond dirprwyon â goruchwyliaeth gyffredinol (achosion blaenorol math 1, 2 a 2A) oedd yn gorfod gwneud adroddiad blynyddol. Nid oedd yn rhaid i ddirprwyon â goruchwyliaeth leiaf (achos blaenorol math 3) gyflwyno adroddiad blynyddol.

Fodd bynnag, yn dilyn argymhellion yr adolygiad o oruchwylio, y cyflwynwyd adroddiad arno i'r Senedd yn 2014, gofynasom i bob dirprwy gwblhau adroddiad blynyddol.

Erbyn hyn mae gennym well trosolwg wrth reoli llwythi achosion, ac mae hynny yn ei dro'n darparu gwell goruchwyliaeth a chefnogaeth i ddirprwyon, pan fyddwch ei angen fwyaf.

Yn y rhifyn diwethaf o InTouch, dywedasom y byddem yn cyflwyno'r newidiadau i'r trefniadau adrodd ar gyfer dirprwyon yn raddol yn ystod y tair blynedd nesaf.

Mae yna dros 20,000 o achosion dirprwyaeth lleiaf yn bodoli'n barod ac rydym wedi trosi dros 11,000 i'r ffordd newydd o adrodd. Rydym hefyd yn gofyn i bob dirprwy newydd gyflwyno adroddiad blynyddol ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf.

Hyd yn hyn rydym wedi derbyn 1,600 o adroddiadau blynyddol gan ddirprwyon â goruchwyliaeth leiaf a disgwyliwn y bydd y nifer yn cynyddu bob mis.


Byddwn yn dal i gysylltu â chi cyn eich adroddiad cyntaf. Byddwn yn galw ac yn ysgrifennu atoch i egluro'r broses ac ateb unrhyw gwestiynau.

Er mwyn symleiddio'r broses adrodd, cyflwynasom ffurflenni adrodd newydd ym mis Gorffennaf - penderfyniadau eiddo a materion ariannol (OPG102), ffurflen fer penderfyniadau eiddo a materion ariannol (OPG103) a phenderfyniadau iechyd a lles (OPG104).

Mae'r ffurflenni newydd yn gliriach ac yn cynnwys gwell canllawiau, a gobeithio y byddant yn haws i'w llenwi.

Rydym hefyd yn cyflwyno system adrodd ddigidol yn raddol (gweler tudalen 5 am y diweddaraf).

**I lenwi ffurflen adrodd dirprwy ewch i gov.uk/opg**



# Yr adroddiad blynyddol yn mynd yn ddigidol

## Ym mis Mehefin, lansiwyd gwasanaeth sy'n caniatáu i ddirprwyon lleyg ddiweddaru eu manylion a gwneud adroddiadau blynyddol ar-lein.

Cynlluniwyd y gwasanaeth ar-lein o amgylch adborth gan ddirprwyon er mwyn sicrhau bod y system yn eich cefnogi yn eich rôl fel dirprwy.

Ers i ni lansio'r gwasanaeth, mae dros 400 o ddirprwyon wedi cyflwyno eu hadroddiad ar-lein. Gwyddom o adborth gan ddefnyddwyr fod y system yn hawdd i'w defnyddio a'i bod yn lleihau nifer yr adroddiadau anghyflawn sy'n cael eu dychwelyd – erbyn hyn, os yw dirprwy heb lenwi adran, ni all gyflwyno'r adroddiad.


Wrth i ni ddatblygu'r gwasanaeth ar-lein dywedodd y defnyddwyr wrthym eu bod yn aml yn cael anhawster ag adran gyfrifon yr adroddiad papur. Defnyddiasom yr adborth hwnnw i ddatblygu adran gyfrifon sy'n gwirio bod y ffigurau'n cyfateb, o ran arian sy'n dod i mewn ac arian sy'n mynd allan. Os nad yw'r ffigurau'n cyfateb, bydd y system yn tynnu sylw at y gwahaniaethau.

Er mwyn sicrhau ein bod yn diogelu oedolion sydd mewn perygl rydym wedi cynnwys adran i fonitro pa mor aml y mae dirprwy'n ymweld â'i gleient. Rydym hefyd yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â newidiadau mawr sy'n cael eu cynllunio yn y 12 mis nesaf.

Gall dirprwyon fewngofnodi i'r gwasanaeth unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn a chofnodi a chadw penderfyniadau fel y maent yn cael eu gwneud. Mae canllawiau wedi'u cynnwys er mwyn eich helpu i ateb unrhyw gwestiynau neu gallwch ffonio 0300 456 0300 i siarad ag un o'n harbenigwyr sydd ar gael i'ch helpu.

Dim ond i ddirprwyon lleyg y mae'r gwasanaeth ar gael ar hyn o bryd, ond rydym eisoes wedi dechrau siarad gydag awdurdodau cyhoeddus sy'n ddirprwyon er mwyn datblygu'r gwasanaeth ymhellach.

Os hoffech lenwi eich adroddiad blynyddol ar-lein ewch i **gov.uk/complete-deputy-report.** Er mwyn creu cyfrif bydd arnoch angen eich rhif achos (cyfeirnod Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar y llythyrau rydych yn eu derbyn) a'ch cyfeiriad e-bost.



# Canlyniadau arolwg darllenwyr InTouch

Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn creu cynnwys diddorol mewn arddull a fformat mae ein darllenwyr yn ei fwynhau. Er mwyn canfod eich barn am gynnwys, amlder a fformat InTouch, roedd y rhifyn diwethaf yn cynnwys arolwg.

Anfonwyd yr arolwg at 6000 o ddirprwyon ac ymatebodd bron i 10 y cant ohonynt. Diolch i bawb a gymerodd ran. Cawsom adborth defnyddiol iawn.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon â chynnwys y cylchlythyr.

Pan holwyd hwy, dywedodd 90 y cant fod y cylchlythyr yn cynnwys y cydbwysedd cywir rhwng iechyd a lles ac eiddo a materion ariannol.

Ar hyn o bryd, mae InTouch yn darparu ar gyfer dirprwyon lleyg, proffesiynol ac awdurdodau cyhoeddus ond roeddem eisiau gwybod a fyddai'n well gan ddirprwyon gael cyhoeddiadau ar wahân – un i ddirprwyon lleyg, un i ddirprwyon proffesiynol ac un i awdurdodau lleol sy'n ddirprwyon.

Yn ddiddorol iawn, dywedodd dros 75 y cant eu bod yn fodlon â chyhoeddiad cyfunol.

Gofynasom i'r darllenwyr pa mor aml y byddent yn hoffi derbyn y cyhoeddiad – dywedodd dros 60 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg y byddent yn hoffi derbyn InTouch ar sail ad hoc neu yn chwarterol.

O ganlyniad, rydym wedi penderfynu cynhyrchu'r cyhoeddiad ddwywaith y flwyddyn (bob chwe mis), sy'n gyfaddawd teg rhwng ad hoc a chwarterol.

Ar sail adborth, byddwn yn dal i anfon y cyhoeddiad drwy'r post at y dirprwyon lleyg presennol. Fodd bynnag, bydd pob dirprwy lleyg newydd, a phob awdurdod cyhoeddus a dirprwy proffesiynol newydd, yn derbyn y cyhoeddiad drwy e-bost.

Roedd yr holl adborth a roddwyd yn werthfawr iawn a byddwn yn ceisio defnyddio'r sylwadau fel sail i'n cyhoeddiadau yn y dyfodol.

> "Roedd y cylchlythyrau diwethaf yn fwy defnyddiol na'r rhai blaenorol."
>
> Awdurdod lleol sy'n ddirprwy

> "Roeddwn yn hoffi'r [erthygl] ar wasanaethau bancio, felly byddai rhagor o [faterion] masnachol yn dda."
>
> Dirprwy lleyg


> "Mae'r astudiaethau achos yn ddefnyddiol iawn."
>
> Dirprwy lleyg

# 6000


wedi derbyn yr arolwg

**10%**

wedi ymateb




**90%** yn dweud bod y cylchgrawn yn cynnwys y cydbwysedd cywir rhwng iechyd a lles ac eiddo a materion ariannol.



**75%** yn dweud eu bod yn fodlon â chyhoeddiad cyfunol.

**60%** o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn dweud y byddent yn hoffi gweld InTouch ar sail ad hoc.

# **Pryd mae rhodd yn briodol –** gwneud y penderfyniad cywir

Mae rhoi rhodd yn ffordd o ddangos ein bod yn caru ein teulu a'n ffrindiau. Mae'n helpu i gynnal perthynas, yn enwedig os yw rhywun yn methu â gwneud rhywbeth fel hyn drosto ei hun.



Fel dirprwy sy'n gwneud penderfyniadau ariannol efallai eich bod wedi profi'r ansicrwydd o wybod pryd i roi rhodd a faint i'w roi. Efallai nad ydych yn gwybod beth y gallwch ei wneud, a beth na allwch ei wneud.

Yn dilyn achos llys proffil uchel lle roedd dirprwy neu atwrnai wedi prynu rhoddion drud yn amhriodol, rydym wedi cyflwyno canllawiau newydd i'ch helpu i wneud y penderfyniadau hyn.

Mae'r canllaw 'Rhoi rhoddion i rywun arall' (OPG2) i'w ddarllen gyda'r nodyn ymarfer 'Gifts: Deputies and EPA/ LPA attorneys.' Bydd yn eich helpu i benderfynu a yw'r penderfyniad ariannol rydych yn ei wneud yn cyfri fel rhodd, ac a yw o fewn eich awdurdod.

Dim ond dirprwyon neu atwrneiod sydd ag awdurdod i wneud penderfyniadau ariannol all roi rhodd. Nodir eich awdurdod i roi rhodd yn y gorchymyn llys sy'n eich penodi fel dirprwy. Fel arfer mae wedi'i gyfyngu i achlysuron penodol, fel genedigaethau, priodasau neu ddathliadau, ac mae wedi'i gyfyngu i bobl sy'n gysylltiedig â'r person rydych yn rheoli ei faterion ariannol, neu elusennau y gallent fod yn eu cefnogi. Rhaid i'r rhodd fod yn rhesymol, gan ystyried yr holl amgylchiadau.

Gallai rhodd fod yn anrheg pen-blwydd i ŵyr neu wyres, yn gyfraniad i elusen y mae'r unigolyn wedi bod yn ei chefnogi, neu dalu ffioedd ysgol plentyn dibynnol. Mae benthyciad, neu fyw yn eiddo rhoddwr heb dalu rhent, hefyd yn cyfri fel rhodd. Rhaid i chi fod yn ofalus os ydych yn ystyried gwneud neu dderbyn rhodd i chi eich hun, oherwydd y posibilrwydd o wrthdaro â'r budd sydd i chi yn eich rôl fel dirprwy.

Man cychwyn pwysig wrth ystyried rhoddion yw bod angen rhoi digon o gyfleoedd i'r unigolyn benderfynu a yw am roi rhodd – os oes ganddo alluedd meddyliol.

Mae'r canllawiau'n cynnwys profion galluedd meddyliol a fydd yn helpu i ddangos eich bod wedi dilyn y broses gywir. Mae yna hefyd awgrymiadau ynglŷn â sut i helpu'r unigolyn i wneud y penderfyniad ynglŷn â'r rhodd os oes ganddo alluedd meddyliol.

Maent hefyd yn edrych sut i wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoddion os nad oes gan rywun y galluedd meddyliol i benderfynu. Cofiwch nad oes rhaid i chi roi rhoddion, ac ni ddylech adael i neb roi pwysau arnoch i wneud hynny os nad ydych yn siŵr.

Mae'r daflen yn rhoi sefyllfaoedd enghreifftiol gan ddefnyddio dirprwyon dychmygol i'ch helpu. Os ydych yn dal yn ansicr, mae'r rhestr gyfeirio yn dweud wrthych a ddylech wneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd i wneud y rhodd.

Mae'r canllawiau hyn, fel y canllawiau eraill, yn ymwneud â sicrhau budd pennaf yr unigolyn a'ch helpu chi i wneud y penderfyniad iawn.

Dylech gofnodi rhoddion yr un fath ag yr ydych yn cofnodi pob penderfyniad ariannol yr ydych yn ei wneud wrth weithredu fel dirprwy.

Os byddwch yn rhoi rhodd a chithau heb awdurdod i'w rhoi, neu nad yw o 'werth rhesymol', efallai y byddwn yn gofyn i chi ei thalu yn ôl, yn gwneud cais am gymeradwyaeth ôl-weithredol neu'n lansio ymchwiliad. I ddarllen y canllawiau a'r nodyn ymarfer ewch i **gov.uk/opg**

> "Gallai rhodd fod yn **anrheg** pen-blwydd i ŵyr neu wyres, yn **gyfraniad** i elusen y mae'r unigolyn wedi bod yn ei chefnogi, neu dalu ffioedd ysgol plentyn dibynnol. Mae **benthyciad**, neu fyw yn eiddo rhoddwr heb dalu rhent, hefyd yn cyfri fel rhodd."

# Diwrnod ym mywyd ymchwilydd OPG

Mae Heather yn uwch ymchwilydd ac yn aelod o dîm o ymchwilwyr yn Nottingham.

Mae Heather yn ymchwilio i ddirprwyaethau sy'n peri pryder i reolwyr achosion. Yn ôl Heather: "Rydyn ni'n cynnal fforymau gyda rheolwyr achosion goruchwylio bob wythnos."

"Cadwch gofnodion cywir a thryloyw o'r diwrnod cyntaf – bydd yn gwneud y broses adrodd gymaint yn haws – ac ymatebwch i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus bob tro y mae'n gofyn am rywbeth."

Mae cynrychiolwyr o dîm ceisiadau llys yr OPG yn mynychu'r fforymau hefyd, a gellir gwneud tri phenderfyniad yno:

- bod y rheolwr achos yn mynd yn ôl allan i gael mwy o wybodaeth
- ein bod yn derbyn yr achos i'w ymchwilio
- ei fod yn mynd yn syth i'r Llys Gwarchod.

Mae achosion sy'n cael eu cyfeirio i'r Llys Gwarchod yn aml yn achosion lle mae'r dirprwy 'heb gydymffurfio' – hynny yw, heb adrodd yn ôl i'r OPG.

Ychwanega Heather: "Pan fyddwn yn derbyn achos i'w ymchwilio, mae amserlen ar gyfer ysgrifennu adroddiad i'w gymeradwyo gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae gwahanol fathau o ymchwiliadau a gwahanol derfynau amser ar gyfer adrodd i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus."

Cyn i Heather ymchwilio i achos, mae rheolwr achos goruchwylio eisoes wedi ymchwilio iddo.

"Mae ein rheolwyr achosion goruchwylio yn helpu dirprwyon o ddydd i ddydd ag achosion cymhleth. Mae'n rôl anodd – ceisio cael cydbwysedd rhwng cynnig cefnogaeth i ddirprwyon a gweld ble maent wedi mynd yn rhy bell." Dim ond ychydig o ddirprwyaethau sy'n cael eu hymchwilio gan yr OPG.

"Mae yna dros 58,000 o orchmynion dirprwyaeth wedi'u gwneud, ond dim ond 50 achos sy'n cael eu hymchwilio y mis yma. Mae hyn yn dangos mai dewis olaf yw ymchwiliad. Rydyn ni'n dechrau achos pan mae tystiolaeth nad yw'r dirprwy wedi gweithredu er budd pennaf y cleient."

Pan mae Heather yn ysgrifennu adroddiad mae'n gwneud yn siŵr bod budd pennaf y cleient yn cael ei ddiogelu.

"Mae'n rhaid imi fod yn ddiduedd wrth ysgrifennu'r adroddiadau. Mae gen i achosion amrywiol. Mae pob achos yn wahanol ac mae pob canlyniad yn wahanol ac yn dibynnu ar y pryderon a nodwyd."

"Rwy'n ystyried fy argymhellion i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ofalus er mwyn diogelu'r cleient. Os nad ydw i'n geirio fy argymhellion yn iawn efallai na fyddan nhw'n cael eu derbyn. Un o rannau gorau'r swydd yw pan fydd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn eu derbyn."

Mae gan Heather gyngor da i ddirprwyon: "Ar ôl gweld wyth mis o achosion byddwn i'n dweud gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen eich gorchymyn llys a'ch bod yn deall beth mae'n ei olygu – peidiwch â'i roi yn y drôr.

"Cadwch gofnodion cywir a thryloyw o'r diwrnod cyntaf – bydd yn gwneud y broses adrodd gymaint yn haws – ac ymatebwch i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus bob tro y mae'n gofyn am rywbeth.

"Weithiau, rydym yn cyfeirio achosion i lefel uwch gan nad ydy hi'n amlwg beth sy'n digwydd.

"Os ydych chi angen help – cysylltwch â ni. Rydyn ni yma i'ch helpu i gyflawni eich dyletswyddau fel dirprwy."

# Y tîm awdurdodau cyhoeddus – gwasanaeth ymatebol

## Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o wella'n gwasanaethau.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ein tîm awdurdodau cyhoeddus ymroddedig wedi gweithio gyda dirprwyon er mwyn datblygu ffordd o wella cyfathrebu rhwng yr OPG ac awdurdodau cyhoeddus sy'n ddirprwyon.

Mae'r tîm awdurdodau cyhoeddus yn gyfrifol am dros 160 o awdurdodau cyhoeddus sy'n rheoli rhwng 1 a 1500 (neu ragor) o achosion.

Cyn hyn, byddai awdurdodau cyhoeddus yn derbyn hyd at 20 llythyr neu e-bost y diwrnod, yn cydnabod derbyn adroddiadau, yn cadarnhau newid cyfeiriad cleient neu'n mynd ar ôl ffioedd hwyr.

Yn aml byddai awdurdodau cyhoeddus yn gohebu â mwy nag un rheolwr achos yn yr OPG. Byddai hyn yn arwain at ddyblygu gwaith ac yn ychwanegu at lwyth gwaith yr awdurdod cyhoeddus.

Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr, gweithiodd y tîm awdurdodau cyhoeddus gyda grŵp bach o ddirprwyon i ddatblygu'r hyn sydd yn y bôn yn adroddiad cynnydd. Cafodd ei dreialu yn 2014, a bellach mae'n cael ei ddefnyddio gan dros 100 o awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r tîm awdurdodau cyhoeddus yn cofnodi unrhyw gamau a gymerir mewn cysylltiad ag achosion yn ystod y mis. Anfonir yr wybodaeth at bob awdurdod cyhoeddus yn fisol, i gael ei diweddaru â sylwadau fel y bo'n briodol cyn ei hanfon yn ôl at yr uwch reolwr achos penodedig yn y tîm awdurdodau cyhoeddus.

Mae gan bob awdurdod cyhoeddus daenlen ddynodedig sy'n cynnwys gwybodaeth am y dirprwy, y pwynt cyswllt yn yr awdurdod cyhoeddus, diweddariadau i adroddiadau blynyddol, a newidiadau ym manylion cleientiaid.

Drwy gyflwyno'r daenlen, rydym wedi lleihau nifer y llythyrau copi caled a'r ohebiaeth ddyddiol a anfonir at awdurdodau cyhoeddus.

Cyflwynasom hefyd un pwynt cyswllt, fel nad yw awdurdodau cyhoeddus yn dod i gysylltiad â mwy nag un rheolwr achos o'r tîm.

Gallwn yn awr wneud sylwadau ynglŷn â rheoli gorchmynion dirprwyaeth, a gall awdurdodau cyhoeddus, yn eu tro, ymateb heb y llythyrau neu'r negeseuon e-bost diangen.

Mae'r awdurdodau cyhoeddus wedi croesawu'r newid hwn – rydym wedi gweld gwelliannau yn y ffordd y rheolir cyfrifon cleientiaid ac mae'r defnyddwyr yn dweud wrthym fod y daenlen wedi eu helpu i reoli eu llwyth gwaith.

Os ydych chi'n awdurdod cyhoeddus sy'n ddirprwy, ac y byddech yn hoffi i'r OPG gysylltu â chi gan ddefnyddio'r daenlen, anfonwch ebost i **opg.pa@publicguardian.gsi.gov.uk**



# Darparwr bond sicrwydd newydd

Mae bondiau yn fath o yswiriant y mae'n rhaid i bob dirprwy (ac eithrio awdurdodau cyhoeddus sy'n ddirprwyon) ei drefnu ar ran y rhai y maen nhw'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'r bond yn diogelu'r cleient ac yn rhoi ad-daliad iddo os bydd ei ddirprwy yn camddefnyddio neu'n gwneud niwed i'w gyllid.

Mae gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus nifer o swyddogaethau statudol dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Un o'r rhain yw gwneud trefniadau i sefydlu cynllun wedi'i gymeradwyo ar gyfer bondiau sicrwydd.

Yn ddiweddar dyfarnwyd y contract i reoli ein cynllun wedi'i gymeradwyo ar gyfer bondiau sicrwydd i Howden UK Ltd. Dyfarnwyd y contract drwy gystadleuaeth deg i'r darparwr a allai gynnig y gwerth gorau am arian i'n cleientiaid.

O 1 Hydref 2016 ymlaen, dim ond at gwmni Howden UK Ltd y bydd yr OPG a'r Llys Gwarchod yn cyfeirio dirprwyon sydd angen bond sicrwydd newydd.

Os oes gennych fond yn barod gydag un o'n cyflenwyr blaenorol, er enghraifft Deputy Bond Services (DBS), does dim rhaid i chi ei drosglwyddo i Howden UK Ltd. Bydd y cyflenwyr hyn yn dal i anrhydeddu a rheoli bondiau sydd wedi'u gwneud gyda hwy ar ôl i'w contract gyda'r OPG ddod i ben.

Gallwch ddal i wneud bondiau newydd gyda darparwyr eraill os dymunwch, ond Howden UK Ltd yw cyflenwr bondiau cymeradwy presennol yr OPG. Ni fyddwn yn monitro lefelau'r gwasanaeth a ddarperir gan gyflenwyr bondiau sicrwydd eraill ar wahân i Howden UK Ltd.

I gael rhagor o wybodaeth am ein darparwr newydd, ewch i **www.howdengroup.co.uk**



# A yw eich gorchymyn Llys Gwarchod wedi dyddio?

Ydych chi'n dal i ddefnyddio gorchymyn a roddwyd gan y Llys Gwarchod cyn i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ddod i rym yn Hydref 2007?

Os ydych, efallai y byddech yn hoffi gwneud cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn dirprwyaeth yn ei le.

Cyn i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ddod i rym, roedd y Llys Gwarchod yn gwneud dau fath o orchymyn dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983: gorchmynion derbynyddiaeth (receivership order) a gorchmynion byr.

Rhoddid gorchmynion byr fel arfer os oedd gwerth yr asedau yn llai nag £16,000. Roeddent yn rhoi awdurdod cyfyngedig i weithredu ar ran rhywun, ond nid oeddent yn dod o fewn telerau trosiannol y Ddeddf Galluedd Meddyliol. O ganlyniad, nid ydynt yn cael eu goruchwylio gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Cyn Hydref 2007, byddai'r Swyddfa Gwarcheidwadaeth Gyhoeddus flaenorol yn cau rhai achosion derbynyddiaeth pe bai gwerth yr asedau yn gostwng o dan yr uchafswm o £16,000.

Os ydych yn dal i ddibynnu ar orchymyn byr neu orchymyn derbynyddiaeth i reoli materion ariannol rhywun, dylech ystyried gwneud cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn dirprwyaeth llawn yn ei le. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw gwerth asedau eich cleient wedi mynd dros yr hen drothwy o £16,000..

Bydd gorchymyn dirprwyaeth llawn yn rhoi'r awdurdod priodol i chi i weithredu ar ran eich cleient. Gallwn ddarparu goruchwyliaeth a chefnogaeth yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, ar ôl i chi ddod yn ddirprwy a benodwyd gan y llys.

I gael rhagor o wybodaeth am orchmynion dirprwyaeth, ewch i **visit gov.uk/opg**



# Gwasanaethau Cymraeg

Fel dirprwy Cymraeg efallai y byddwch yn defnyddio mwy o Gymraeg nag o Saesneg wrth siarad gyda'r sawl rydych yn gofalu amdano. Erbyn hyn gallwch gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg gyda ni hefyd.



Gall cyfathrebu â'r OPG yn yr un iaith ag y byddwch yn ei defnyddio i gyfathrebu â'r cleient helpu i sicrhau nad oes angen cyfieithu ac ailgyfieithu materion sy'n aml yn gymhleth dro ar ôl tro. Wrth geisio ymgysylltu ag unigolyn sy'n agored i niwed neu'n fregus gall defnyddio'r un iaith bontio bwlch emosiynol a'ch helpu i wneud penderfyniadau priodol ar ran yr unigolyn. Os yw'r unigolyn yn siarad Cymraeg yn rheolaidd â'i deulu a'i ffrindiau, gallai defnyddio'i iaith fod yn ffordd o sefydlu perthynas gryfach gydag ef.

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru baratoi cynllun yn nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Lle bo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein cynllun iaith Gymraeg sy'n amlinellu ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Yn yr OPG rydym yn cynnig adnoddau Cymraeg i chi pan fyddwch yn cyflawni eich dyletswyddau fel dirprwy.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- gallwch gyfathrebu'n ysgrifenedig gyda ni yn yr iaith Gymraeg os dymunwch
- mae fersiynau Cymraeg o'n tudalennau gwe i'w gweld yn GOV.UK
- mae fersiwn dwyieithog o'n ffurflen adroddiad dirprwy (OPG 102) ar gael
- mae llawer o'n canllawiau a'n nodiadau ymarfer ar gael i'w llwytho i lawr yn y Gymraeg o GOV. UK ac mae'r lleill ar gael gennym ar gais

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi pobl oedrannus a phobl sydd angen help i reoli eu materion yng Nghymru, er mwyn gwella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig.

Mae'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, Alan Eccles, yn cyfarfod Comisiynydd y Gymraeg bob chwe mis ac mae'n awyddus i ehangu a gwella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i siaradwyr Cymraeg.

Bydd yr OPG hefyd yn cynnal y Cyfarfod o Amgylch y Bwrdd i drafod Diogelu yng Nghaerdydd ym mis Medi bob blwyddyn lle byddwn yn siarad gyda chynrychiolwyr o'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni am ein gwasanaethau a'n gwaith diogelu. Yma, rydym yn gobeithio cryfhau'r partneriaethau sydd gennym yn barod ledled Cymru.

I ganfod sut y gall yr OPG weithio gyda chi yn y Gymraeg cysylltwch ag **opgpolicy@publicguardian.gsi.gov.uk**

# Cysylltiadau defnyddiol

## Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG)

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gyfrifol am gofrestru atwrneiaethau arhosol a pharhaus, fel bod pobl yn gallu dewis pwy fydd yn gwneud penderfyniadau ar eu rhan os byddan nhw'n methu. Rydym yn cadw'r gofrestr gyhoeddus o ddirprwyon a phobl y rhoddwyd atwrneiaethau arhosol a pharhaus iddynt. Rydym hefyd yn goruchwylio ac yn cefnogi dirprwyon a benodwyd gan y Llys Gwarchod ac yn ymchwilio i adroddiadau bod atwrneiaethau neu ddirprwyon cofrestredig yn camddefnyddio'u statws.

The Office of the Public Guardian, PO Box 16185,<br>Birmingham<br>B2 2WH

**www.gov.uk/opg**

## Canolfan Gysylltu'r OPG

Ffôn: 0300 456 0300

9am tan 5pm – dydd Llun i ddydd Gwener<br>10am tan 5pm – dydd Mercher

Ni chodir mwy na chyfradd galwadau cenedlaethol.

Ebost: **customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk**

Os ydych yn cael anhawster i siarad neu glywed a bod modd i chi ddefnyddio ffôn testun gallwch gysylltu â ni ar 0115 934 2778

Ffacs: 0870 739 5780

I lawrlwytho ffurflenni dirprwyaeth neu ganllawiau ewch i **www.gov.uk/becomedeputy**

## Tîm Ymweliadau'r OPG

E-bost: **opgvisitorsoffice@publicguardian.gsi.gov.uk**

## Y Llys Gwarchod

Mae'r Llys Gwarchod yn llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phobl nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau penodol. Mae'r llys yn gwneud penderfyniadau ac yn penodi dirprwyon i wneud penderfyniadau er budd pennaf pobl nad oes ganddynt y gallu i wneud hynny drostynt eu hunain.

Court of Protection, PO Box 70185,<br>First Avenue House,<br>42 - 49 High Holborn,<br>Llundain,<br>WC1A 9JA

Ffôn: 0300 456 4600

I lawrlwytho ffurflenni'r Llys Gwarchod ewch i HMCTS Form Finder **http://hmctscourtfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do**

I weld gwybodaeth am benderfyniadau'r Llys Gwarchod ewch i **www.bailii.org/ew/cases/EWHC/COP**

**Cysylltu ag InTouch**

Office of the Public Guardian
PO Box 16185, Birmingham, B2 2WH

**intouch@publicguardian.gsi.gov.uk**